# FRANCIS, GRIFFITH (1876 - 1936) ac OWEN (1879 - 1936)

**Enw:** Griffith Francis
**Dyddiad geni:** 1876
**Dyddiad marw:** 1936
**Rhiant:** Mary Francis
**Rhiant:** William Francis
**Rhyw:** Gwryw
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Perfformio
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd y brodyr ym Mryn-y-Wern, Cwm Pennant, Sir Gaernarfon - Griffith ym mis Rhagfyr 1876, ac Owen ar 15 Mehefin 1879, meibion William a Mary Francis. Yr oedd y tad yn gerddor da, a swyddog yn chwarel y Moelfre, a'u mam - 'Mair Alaw' - yn gantores o Nantlle. Chwarelwyr oedd y brodyr, a'r ddau yn gantorion rhagorol.

Bardd hefyd oedd Griffith, yn y mesurau caeth a rhydd. Cyhoeddodd lyfr o'i farddoniaeth, *Telyn Eryri*, yn cynnwys caneuon am fywyd chwarelwr a thyddynnwr yn nhermau'r werin. Casglodd lyfr arall, ond ni chyhoeddwyd mohono.

Cerddor oedd Owen, a chyfansoddodd rai caneuon.

Ceir llawer o emynau, caneuon, ac englynion o waith y brodyr yn *Y Genedl* a chylchgronau eu cyfnod. Yn nyddiau cynnar darlledu, cymerasant ran yn y cyngerdd Cymraeg cyntaf a ddarlledwyd o Ddulyn, a chynaliasant gannoedd o gyngherddau a fu o wasanaeth i'r bywyd Cymreig. Canodd y ddau frawd gyda'i gilydd ar hyd eu hoes, a buont farw yr un flwyddyn - Owen, 6 Ebrill 1936 (claddwyd ef ym mynwent capel Salem, Llanllyfni), a Griffith 15 Mehefin 1936 (claddwyd ym mynwent Macpela, Penygroes).

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


*Y Cerddor*, Awst 1936

*Y Genedl* a *Baner ac Amserau Cymru*, 1936


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733088


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu